**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2024**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad. |
| **3** | MATERION BRYS | Caniataodd yr Arweinydd gwestiwn gan y Cynghorydd Terry Mendies yn ymwneud â'r Gwasanaeth Bws X51 i Landegla. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2024 a 22 Hydref 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.* |
| **5** | Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL: EBRILL I FEDI 2024 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn ei swyddogaethau ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Medi 2024 ac yn cadarnhau cynnwys yr adroddiad ar gyfer ei gymeradwyo.* |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.* |
| **7** | RHAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen waith y Cabinet.* |
| **8** | GWAREDU CALEDFRYN, DINBYCH | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo gwaredu Caledfryn, Dinbych yn unol ag argymhellion yr adroddiad i'r parti a enwir ac ar gyfer y cyfanswm a ddangosir, a*<br><br>*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les.* |
| **9** | GRANT CYMORTH TAI - PROSIECT CADW FY NGHARTREF - AILGARTREFU CYFLYM | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cydnabod fod ymarfer tendr teg a chadarn wedi ei gynnal yn unol â Rheolau* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Gweithdrefn Gontractau Sir Ddinbych ac a oedd wedi nodi 'enillydd' clir (fel y nodir ym mharagraff 3.1 yr adroddiad) a oedd wedi amlinellu rhaglen a oedd yn bodloni amcanion a dyheadau manylion y prosiect a nodir yn y cais tendr (Atodiad 3 i'r adroddiad);*<br><br>*(b) cytuno i ddyfarnu'r contract i'r darparwr contract a enwir (fel nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad) yn seiliedig ar eu cynigion tendr ar lefel y ffi a gynigir, a*<br><br>*(c) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |